**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Siân Gwenllian AC
Aelod y Cynulliad dros Arfon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

2 Tachwedd 2017

Annwyl Siân

Rwy'n ysgrifennu atoch gan gyfeirio at Gwestiynau'r Prif Weinidog ddydd Mawrth 17 ynghylch dyfodol gwasanaethau fasgwlaidd yn Ysbyty Gwynedd (OAQ51216).

Yn fy ymateb, cyfeiriais at y gwelliant i'r canlyniadau yn sgil ad-drefnu gwasanaethau'r colon a'r rhefr yn y De. Hoffwn egluro mai cyfeirio oeddwn, mewn gwirionedd, at ad-drefnu llawdriniaethau canser gastroberfeddol uchaf yn y De. Yn 2015, cyhoeddodd Coleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Lloegr adroddiad a oedd yn disgrifio bod y gwasanaeth wedi'i ganoli yng Nghaerdydd a bod hyn yn gwella cyfraddau triniaethau y bwriedir iddynt roi gwellhad o 21% i 36%; bod nifer y diwrnodau y mae'n rhaid i gleifion aros yn yr ysbyty ar ôl llawdriniaeth wedi gostwng o 16 diwrnod i 13 diwrnod, a bod canolrif y gyfradd oroesi wedi cynyddu 24%. Mae'r adroddiad ar gael yma:

https://www.rcseng.ac.uk/library-and-publications/college-publications/docs/state-of-surgery-wales/

Y pwynt pwysig roeddwn yn ceisio ei gyfleu oedd na allwn barhau i lynu at y drefn bresennol o ran gwasanaethau sydd wedi datblygu'n organig dros ddegawdau. Os ydym am barhau i wella ansawdd a chanlyniadau, mae angen inni fynd ati i ailfodelu ein gwasanaethau er mwyn iddynt ddiwallu gofynion y boblogaeth y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae llawer o staff ymroddedig a thra medrus yn gweithio ym mhob un o'n hysbytai yng Nghymru, ond ni ddylai hyn ein rhwystro rhag newid gwasanaethau lle y bo'n briodol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r boblogaeth. Wrth gwrs, mae'n rhaid inni wneud hyn ar y cyd â chleifion a chlinigwyr, gan fynd i'r afael ag unrhyw bryderon megis amser a phellter teithio. Nid yw'n golygu y bydd yr holl wasanaethau'n esblygu i gyfeiriad canoli ar raddfa fwy. Mae gennym ffocws cenedlaethol ar ddarparu mwy o ofal yn y gymuned, fel sy'n cael ei amlinellu yn ein Cynllun Gofal Sylfaenol.

Gobeithiaf fod hyn yn egluro fy ateb blaenorol i chi.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Siân Gwenllian AM
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

2 November 2017

Dear Siân

I am writing in reference to First Minister's Questions on Tuesday 17th with regard to the future of vascular services at Ysbyty Gwynedd Hospital (OAQ51216).

In my reply I referenced the improved outcomes that had resulted from reconfiguring colorectal services in South Wales. I wish to clarify that I was actually referring to the reconfiguration of upper gastrointestinal cancer surgery in South Wales. The Royal College of Surgeons in England published a report in 2015, which described how the service was centralised in Cardiff and this improved the rate of curative treatment intent from 21% to 36%; length of hospital stay after surgery decreased from 16 days to 13 days; and median survival increased by 24%. The report can be found at:

https://www.rcseng.ac.uk/library-and-publications/college-publications/docs/state-of-surgery-wales/

The important issue I was trying to get across is that we cannot remain wedded to current services configurations which have developed organically over many decades. If we are to keep improving quality and outcomes, we need to proactively remodel our services so they can meet the population demands we will face in the coming years. There are many dedicated and expert staff working across all our hospitals in Wales but this must not prevent us changing services where appropriate to deliver better population outcomes. Of course, we must do this in cooperation with patients and clinicians, addressing any concerns such as travel distance and time. It does not mean all services will evolve in the direction of greater centralisation. We have a national focus on providing more care in the community, set out in our Primary Care Plan.

I hope this clarifies my previous answer to you.

Yours sincerely

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.